



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb i adolygiad thematig Estyn o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru

OGL

ISBN digidol 978 1 4734 8024 7
© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2016
WG27868

Teitl yr adroddiad:

Dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru 2015–2016

Manylion yr adroddiad:

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Estyn i gynnal astudiaeth o Dysgu Oedolion yn y Gymuned, er mwyn rhoi darlun cliriach i Lywodraeth Cymru o'r ddarpariaeth yng ngoleuni toriadau yn y cyllid.

Crynodeb o'r prif gasgliadau:

Mae Estyn o'r farn bod yna nifer o heriau sylweddol sy'n effeithio ar ddyfodol Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Mae'r adroddiad yn nodi bod angen y canlynol:

- strategaeth gan y llywodraeth sy'n nodi rôl glir ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned er mwyn gwella sgiliau oedolion sydd â sgiliau sylfaenol gwael, i'w gwneud yn fwy cyflogadwy
- cyllid hirdymor i'w gwneud yn bosibl cael gwell strategaeth a chynllunio Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn well – mae yna ansicrwydd ynghylch y cyllid gan fod cyllid cyhoeddus yn parhau i leihau.

Mae'r adroddiad yn codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd y sector ac mae effeithiau'r sefyllfa ariannol yn cael eu teimlo ar lefel staffio ac arbenigedd – yn sgil diswyddiadau a newidiadau o ran swyddi – yn enwedig ym meysydd Sgiliau Hanfodol, Llythrennedd Digidol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) – sydd o gryn bryder gan fod y rhain yn feysydd blaenoriaeth i Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae nifer y staff yn gostwng, ond lefel yr angen yn cynyddu.

Mae Estyn yn cydnabod natur unigryw a gwerth Dysgu Oedolion yn y Gymuned wrth geisio darparu ar gyfer y rheini sydd anoddaf eu cyrraedd a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Un o'i brif gryfderau yw ei fod yn cael ei ddarparu yn yr ardal lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel. Mae toriadau o ran staff yn golygu bod arbenigedd yn y meysydd arbenigol hyn yn cael ei gollu a bod cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer y tiwtoriaid hynny sydd ar ôl hefyd yn lleihau.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y gostyngiad yn y cyrsiau 'hamdden' fforddiadwy sydd ar gael – yn enwedig i ddysgwyr hŷn (ac yn fwyaf penodol, menywod hŷn) a dysgwyr llai cyfoethog – gweithgareddau ymgysylltu yw'r cyrsiau hyn yn aml. Mae partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ymroddedig ac yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o ddarparu dosbarthiadau addysg a byw'n iach sy'n cynnwys pobl o bob oed, ond mae'n anodd cynnal y dosbarthiadau hyn yn y tymor hirach.

Mae materion tebyg yn codi ynghylch y cyrsiau sydd ar gael drwy'r Gymraeg.

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru:

A1 – adolygu ei pholisi a'i strategaeth ariannu ar gyfer y sector dysgu oedolion yn y gymuned

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau. Aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu cwmni Ymchwil ARAD i gynnal adolygiad o Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru – mae'r adroddiad ar yr adolygiad wedi'i gyhoeddi. Roedd yr adolygiad yn cynnwys nifer o argymhellion a oedd yn ymwneud â pholisi, cyllid a strwythur Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru. Mewn ymateb, rydym yn bwriadu adolygu'r polisi ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru dros y misoedd nesaf ac ymgynghori â'r sector ar strwythur darpariaeth a chyllid diwygiedig ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru.

Argymhelliad 2

Dylai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned:

- barhau i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu i gynnig gwerth am arian i'r holl ddysgwyr sy'n oedolion

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Byddwn yn ysgrifennu at y darparwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o argymhelliad Estyn a byddwn yn trafod casgliadau'r adolygiad gyda nhw yng nghyfarfod Partneriaeth Dysgu Oedolion Cymru.

Manylion cyhoeddi

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan Estyn ar 23 Tachwedd 2016.